NHS
Blood and Transplant

# Beth am siarad am...

# eGFR (Cyfradd Hidlo Glomerwlaidd amcangyfrifedig)

**Mae rhoddwyr arennau byw yn destun profion helaeth yn ystod cyfnod eu hasesiad. Un o'r profion pwysig a gynhelir yw mesuriad cywir o swyddogaeth yr arennau, er mwyn gweld a fydd y sawl sy'n dymuno rhoddi yn cael ei adael â swyddogaeth ddigonol pe bai'n colli un aren. Enw'r prawf hwn yw'r Gyfradd Hidlo Glomerwlaidd mesuredig (GFR). Ar ôl rhoddi aren, nid oes angen mesur y GFR eto mewn rhoddwr iach. Caiff rhoddwyr eu hannog i fynychu apwyntiad blynyddol am brofion gwaed ac wrin ac i fesur eu pwysedd gwaed.**

Mewn rhoddwyr arennau a sgriniwyd yn ofalus, dengys astudiaethau bod disgwyliad oes a'r risg gydol oes o glefyd yr arennau yn debyg i'r hyn a geir yn y boblogaeth yn gyffredinol.

## Ar ôl rhoddi

Dylai rhoddwyr fod yn ymwybodol y bydd lefel y creatinin yn eu gwaed yn uwch ac y bydd y GFR amcangyfrifedig (eGFR) ar ôl rhoddi yn is gan fod un aren bellach yn gwneud gwaith dwy. Mae hyn yn gwbl arferol. Caiff yr eGFR ei gyfrifo o'r prawf gwaed ac mae'n fesur amcangyfrifedig o swyddogaeth yr aren. Mewn rhoddwyr arennau byw iach, gall prawf eGFR achosi penbleth ar ôl rhoddi, gan ei fod fel arfer yn berthnasol i bobl â dwy aren.

Mae gan rhan fwyaf o ardaloedd y DU system rybuddio, sy'n dwyn sylw at eGFR o <60ml/mun. Mae'n hynod bwysig NA chaiff rhoddwyr aren blaenorol eu cynnwys yn y grwp hwn a'u bod yn cael eu hysbysu NAD oes ganddynt glefyd cronig yr arennau. Mae eu eGFR yn is oherwydd mai un aren sydd ganddynt ac mae'r aren sydd ar ôl yn gwbl iach.

Os yw rhoddwr yn datblygu protein yn yr wrin (proteinwria), pwysedd gwaed uchel, neu ddirywiad yn swyddogaeth yr aren, mae'n rhaid iddynt gael eu gweld gan arbenigwr arennau.

## A oes data yn y DU ynghylch swyddogaeth arennau yn dilyn rhoddi?

Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn casglu data dilynol gan bob rhoddwr byw yn y DU, ac mae hyn yn rhoi gwybodaeth dda am iechyd rhoddwyr yn y tymor hir ac am swyddogaeth eu harennau. Mae hi'n bwysig i roddwyr at y dyfodol, derbynwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol wybod bod rhoddwyr arennau byw yn gwneud yn dda yn y tymor hir.



**I gael rhagor o wybodaeth am roddi organau byw, ewch i:**
**www.organdonation.nhs.uk/become-a-living-donor**

UK Guidelines for Living Donor Kidney Transplantation
**https://bts.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/FINAL_LDKT-guidelines_June-2018.pdf**

## NODIADAU

I gael rhagor o wybodaeth am roddi arennau byw, ewch i
**www.organdonation.nhs.uk/become-a-living-donor**
ffoniwch **0300 123 23 23** neu
e-bostiwch **enquiries@nhsbt.nhs.uk**

Yes I donate
ORGAN DONATION